OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3365

# Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005

## RHAN III

NATUR A CHWMPAS Y WEITHDREFN SYLWADAU

**Sylwadau darostyngedig i ystyriaeth gydredol**

**8.**—(1) Pan fo sylwadau'n ymwneud ag unrhyw fater—

(a) y mae'r achwynydd wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu dwyn achos mewn unrhyw lys neu dribiwnlys yn ei gylch, neu

(b) y mae'r awdurdod lleol yn dwyn achos disgyblu neu'n bwriadu dwyn achos disgyblu yn ei gylch, neu

(c) y mae'r awdurdod lleol wedi'i hysbysu bod ymchwiliad yn cael ei gynnal iddo gan unrhyw berson neu gorff gyda'r bwriad o ddwyn achos troseddol, neu

(ch) y galwyd cyfarfod yn ei gylch o gyrff eraill gan gynnwys yr heddlu i drafod materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion hawdd eu niweidio, neu

(d) yr hysbyswyd yr awdurdod lleol yn ei gylch, fod ymchwiliadau cyfredol yn mynd rhagddynt gyda'r bwriad o ddwyn achosion o dan adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**),

rhaid i'r awdurdod lleol ystyried, drwy ymgynghori â'r achwynydd ac ag unrhyw berson neu gorff arall y mae'n briodol ymgynghori ag ef ym marn yr awdurdod, sut y dylid ymdrin â'r sylwadau. Cyfeirir at sylwadau o'r fath at ddibenion y rheoliad hwn fel "sylwadau darostyngedig i ystyriaeth gydredol".

(2) Caniateir rhoi'r gorau i ystyried sylwadau darostyngedig i ystyriaeth gydredol os ymddengys i'r awdurdod lleol ar unrhyw adeg y byddai parhau i'w hystyried yn peryglu neu'n rhagfarnu'r ystyriaeth arall.

(3) Pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu rhoi'r gorau i ystyried cwyn o dan baragraff (2) rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r achwynydd o'r penderfyniad hwnnw.

(4) Pan fydd yr awdurdod lleol yn rhoi'r gorau i ystyried unrhyw sylwadau o dan baragraff (2), caiff fynd yn ôl i'w hystyried ar unrhyw adeg.

(5) Pan roddwyd y gorau i ystyried cwyn o dan baragraff (2) rhaid i'r awdurdod ganfod a yw'r ystyriaeth gydredol yn mynd rhagddi a rhaid iddo hysbysu'r achwynydd pan fydd wedi dod i ben.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol fynd yn ôl i ystyried unrhyw sylwadau pan roddir y gorau i'r ystyriaeth gydredol neu os daw'r ystyriaeth gydredol i ben a bod yr achwynydd yn gofyn am i'r sylwadau gael eu hystyried o dan y Rheoliadau hyn.

(**1**) 2000 p.14.